# Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd

**Dydd Mercher 26 Tachwedd 2014**

**Cadeirydd: Mark Isherwood AC**

**Cofnodion**

## Trechu Tlodi: Beth all cystadleuaeth a rheoleiddio eu cyflawni ar gyfer aelwydydd sy’n dioddef tlodi tanwydd?

**Yn bresennol:**

Mark Isherwood AC, Tony Breese - Seraph Energy, Helen Cunningham ar ran Jenny Rathbone AC, Michael Anderson – SSE Swalec, Helen Roach – National Energy Action (NEA) Cymru, Carole Morgan-Jones - NEA Cymru, Andy Regan - Cyngor ar Bopeth Cymru, Charlotte Jones - Cyngor ar Bopeth Cymru, Lia Murphy - Ofgem, Sue Purnell - Rheolwr Cysylltiadau Cwsmeriaid SSE Swlec, Zoe McLeod - Rheolwr Bregusrwydd Defnyddwyr Ofgem, Simon Harris - Cynrychiolydd Cymru, yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA), Paul Haines - Nwy Prydain

**Ymddiheuriadau**

Simon Thomas AC, Aled Roberts AC, Nigel Winnan - Wales and West Utilities, David Fitzpatrick - Cynnal Cymru, Mark Cazaly - Energy UK, Haf Elgar - Cyfeillion y Ddaear, Iwan Williams - Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, Claire Durkin - Ymddiriedolwr Cymru yr NEA , Nick Speed - Nwy Prydain, Shea Jones – Cartrefi Cymunedol Cymru, Yr Athro Phil Jones

Nid oedd dim materion yn codi o gofnodion y cyfarfod diwethaf.

**Amddiffyn defnyddwyr sy’n agored i niwed - Zoe McLeod, Rheolwr Bregusrwydd Defnyddwyr, Ofgem.**

Rhoddodd Zoe gyflwyniad ar waith Ofgem ar ddiogelu defnyddwyr sy’n agored i niwed. Rhoddodd drosolwg byr o’r strategaeth ar bobl sy’n agored i niwed, a soniodd hefyd am faterion yn ymwneud â rhagdaliadau.

Amlinellodd Zoe brif amcanion Ofgem, a nododd ei chwe maes gwaith o ran pobl sy’n agored i niwed;

- Marchnadoedd a gwasanaethau cynhwysol
- Dyled a datgysylltu
- Rhagdaliadau
- Fforddiadwyedd
- Materion nad ydynt yn ymwneud â nwy
- Arloesi

Gweler cyflwyniad atodedig Zoe i gael gwybodaeth fanylach amdano.

Ymchwiliad yr **Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) i'r farchnad ynni: Process and engagement in Wales – Simon Harris, cynrychiolydd Cymru, y CMA**

Rhoddodd Simon drosolwg o ymchwiliad y CMA i'r farchnad ynni, a'r wybodaeth ddiweddaraf amdano.

Nododd Simon yn fyr pwy yw'r CMA a beth yw ei amcanion.

Gweler cyflwyniad atodedig Simon i gael gwybodaeth fanylach amdano.

**Cwestiynau**

1. O ran yr ymgynghoriad, a fyddwch yn cysylltu â darparwyr eraill ar wahân i Cyngor ar Bopeth?
    - Hoffem gysylltu â chynifer o sefydliadau â phosibl a fyddai â diddordeb. Yr her yw, gwybod pwy ydynt a ble y maent.

2. Pa gysylltiad sydd gennych â Llywodraeth Cymru ynglŷn â hyn?
    - Nid yw cystadleuaeth o fewn y farchnad ynni yn fater datganoledig, felly dim cysylltiad uniongyrchol ar hyn o bryd.
    - Cynigiwyd awgrymiadau ynghylch pwy i gysylltu â hwy yn Llywodraeth Cymru (Carl Sargent)

3. Un o'r pethau sydd eisoes wedi'u hawgrymu yw, y gallai'r newidiadau yn y setliad datganoli beri bod eich canfyddiadau presennol wedi darfod. Felly a oes unrhyw bosibilrwydd, o fewn yr hyn y byddwch yn ei ddarganfod ar y diwedd, o ddweud a fydd hyn yn digwydd os bydd datganoli yn newid yn hyn o beth yng Nghymru, ac, y gall y mater hwn gael ei ystyried eto. A oes posibilrwydd o wneud hyn?
    - Mae'n bosibl y bydd modd symud pyst y gôl yn y cyfnod o 18 mis, felly mae angen i ni fod yn ymwybodol o unrhyw newidiadau sy'n digwydd yn ystod yr ymchwiliad.

4. A yw'r ymchwiliad yn edrych ar y gwahaniaethau a delir gan y rhanbarthau am ynni, ac yn edrych, nid yn unig ar y chwe chwmni ynni mawr, ond hefyd ar y rhwydweithiau dosbarthu?
    - Rydym yn siarad â phawb sydd â diddordeb, nid y chwe chwmni ynni mawr yn unig, ac yn gofyn y cwestiynau am y gwahaniaethau yn y pris rhwng y rhanbarthau. Rydym yn gofyn am ddadansoddiadau o amrywiadau ar sail ranbarthol a chenedlaethol.

Gwnaed awgrym y dylai'r CMA ymuno â Grŵp Cyflawni Strategol Ynni Cymru.

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Cynigiwyd enw Mark Isherwood yn Gadeirydd gan Carole Morgan-Jones. Cytunwyd gan bawb.

Cynigiwyd enwau Carole Morgan-Jones ac Andy Regan fel ysgrifenyddion ar y cyd gan Mark Isherwood. Cytunwyd gan bawb.

**ADRODDIAD BLYNYDDOL 2013/14**

Rhoddodd Carole Morgan-Jones fraslun o'r adroddiad blynyddol a'i gynnwys, gan gynnwys y datganiad ariannol.

Cynhelir **Cynhadledd Tlodi Tanwydd Cymru ar 22 Ionawr 2015**